

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Archwiliadau Safle)

13 Mehefin 2022

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd S Alderman (St Ishmaels yn unig), Cynghorydd Mrs D Clements, Dr M Havard, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall, a'r Cynghorydd C Williams.

Swyddogion yn bresennol: Mrs N Gandy, Mr R James, Mrs C Llewellyn (Cofnodion).

(Archwiliad Safle: Talbenni 1.35pm – 2.35pm; St Ishmaels 2.50pm – 3.35pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorydd S Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. NP/21/0399/FUL - Adeiladu sgubor ôl-weithredol ar gyfer da byw a gwaith ar gladdfa silwair i gynorthwyo'r fferm allu gweithredu fel fferm waith – Tir gyferbyn Middle Broadmoor, Talbenni, Hwlfordd, Sir Benfro, SA62 3XD

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe'u hatgoffodd mai pwrpas yr ymweliadau'r diwrnod hwnnw oedd er mwyn eu galluogi i ddod yn gyfarwydd â safleoedd y ceisiadau a'r hyn oedd o'u hamgylch. Ni fyddai yna unrhyw drafod ac ni fyddai yna benderfyniadau nes y byddai'r ceisiadau cynllunio yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu maes o law.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y ddau gais wedi'u hystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 18 Mai 2022 pan gawsant eu gohirio i ganiatáu cynnal archwiliad safle.

Adroddodd y swyddog cynllunio bod caniatâd ôl-weithredol wedi'i ddeisyf ar gyfer pydew silwair a sgubor da byw ar ddau safle ar wahân y gellir eu cyrraedd ar hyd ffordd heb ei chofrestru. Roedd angen y pydew silwair a'r sgubor i gefnogi gweithredu'r busnes ffermio yn Lower Broadmoor. Roedd y sgubor a'r pydew silwair wedi'u lleoli oddi wrth y prif glwstwr o adeiladau fferm er mwyn gwahanu'r gwartheg ifanc y brif yrr er mwyn ceisio atal lledaeniad TB. Roedd y safleoedd a ddewiswyd wedi'u lleoli ar dir oedd wedi'i ddatblygu yn y gorffennol ac yn gysylltiedig ag erodrom oedd yno adeg yr Ail Ryfel Byd.



Ymwelodd yr Aelodau â'r sgubor yn gyntaf, a nodwyd ei bod i raddau helaeth wedi'i chuddio rhag yr ardal ehangach gan glawdd yn ogystal â choed/prysgwydd yn rhedeg ar hyd ffin yr heol. Ond, fodd bynnag, roedd yn bosib ei gweld o bellter, oddi ar Lwybr Arfordir y Parc Cenedlaethol ac am ei bod wedi'i lleoli ar y gorwel roedd felly i'w gweld o'r dirwedd ehangach. Nodwyd lleoliad y plannu ychwanegol a ofynnwyd amdano gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor esboniodd gweithwyr yr ymgeisydd y drefn ar gyfer gwaredu gwastraff anifeiliaid a bwyd o'r sgubor, a wnaed dwy neu dair gwaith yr wythnos trwy ddefnyddio peiriant, ond fel cyfaddawd i ryngu bodd eiddo gerllaw ni fyddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud cyn 8.30am. Cadarnhawyd nad oedd goleuadau ar y safle a chyn codi'r sgubor roedd yna gladd silwair a sgubor wag wedi'u lleoli yno.

Croesodd yr Aelodau'r ffordd wedyn i sylwi ar y safle o safbwynt y gwrthwynebwyd ar y maes gweryslla cyfagos. Nodwyd bod hwn yn Safle Cofrestredig, ar gyfer defnydd gan aelodau perthnasol y Clwb, nad oedd angen caniatâd cynllunio i'w weithredu. Cyfeiriwyd at yr arwyddion yn gofyn i drafnidiaeth beidio â gyrru ynghynt na 20mya.

Bu'r Aelodau wedyn yn edrych ar safle'r pydew silwair ac unwaith eto cyfeiriwyd at y gwaith tirweddu arfaethedig. Nodwyd bod mwy o fanylion i'w cael yn [landscape specification and management plan](#) oedd wedi'i gyflwyno a'i fod i'w weld ar wefan yr Awdurdod. Fodd bynnag, am fod y cladd wedi'i wneud o goncrit roedd yn cydweddu â choncrit yr hen redfa lle'r oedd wedi'i leoli, a hynny o ba le bynnag yr edrychid arno. Eglurwyd y byddai unrhyw hylif o'r silwair yn draenio i danc tanddaearol fyddai'n cael ei wacau bob hyn a hyn.

Gohiriodd y Cadeirydd yr ymweliad safle wedyn er mwyn teithio i'r safle nesaf.

3. NP/21/0743/FUL – Datblygiad preswyl arfaethedig o 15 o dai a gwaith cysylltiedig. - Tir gyferbyn i'r Ysgol Gynradd, Heol Trewarren, St Ishmaels, Sir Benfro SA62 3SZ

Adroddodd y swyddog cynllunio bod hwn yn gais o bwys yn chwennych caniatâd cynllunio llawn am 15 o dai annedd (pedwar ohonyn nhw'n fforddiadwy) ar dir gyferbyn i'r ysgol yn St Ishmaels. Roedd y safle yn gorwedd oddi fewn ffin Ganol St. Ishmaels, Canolfan Wledig yn ôl diffiniad y Cynllun Rheoli Datblygu (CRhD) 2, ac wedi'i neilltuo ar gyfer 13 o anheddau, wedi derbyn caniatâd amlinellol, a thri ohonyn nhw'n fforddiadwy. Roedd yr egwyddor o ddatblygu ar y safle hwn felly wedi'i



sefydlu ac roedd y caniatâd oedd eisoes yn bodoli yn rhywbeth y gellid ailgydio ynddo. Fodd bynnag, roedd y cais cyfredol yn darparu annedd fforddiadwy ychwanegol a chyfraniad o £21k tuag at wella mynediad rhwng yr ysgol a'r clwb chwaraeon; byddid yn sicrhau hyn trwy Gytundeb S106.

Esboniodd y Cadeirydd bod gan yr ysgol, fel roedd y Pennaeth wedi amlinellu yn y cyfarfod Pwyllgor, nifer o bryderon ynghylch y cais, yn bennaf ynghylch y tebygolrwydd o waethygu tagfeydd traffig ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol, a hefyd diogelwch. Gwahoddwyd y Pwyllgor wedyn i edrych ar y safle o'r ardal dysgu awyr agored ar gyfer y plant lleiaf oedd wedi'i leoli yng nghefn yr adeilad. Roedd hyn gyferbyn i'r safle tra roedd y prif faes chwarae wrth ochr yr adeilad. O'r fan honno nododd y swyddog y byddai ffiniau'r tai wedi'u gosod nôl o'r clawdd i ganiatáu coridor 1.5m o led ar gyfer bywyd gwylt. Byddai tirweddu ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu.

Wrth fynd i mewn i'r safle esboniodd y swyddog y byddai yna fynedfa newydd yn cael ei thorri yn lle'r hen un. Ychwanegodd bod y cynigion yn bodloni'r Awdurdod Priffyrdd cyhyd ag y byddai digon o le parcio yn cael ei ddarparu ac na fyddai cynnydd mewn trafndiaeth o ganlyniad i'r datblygiad.

Nododd yr Aelodau union lleoliad ardal ddysgu awyr agored yr ysgol mewn perthynas â'r safle yn ogystal â lleoliad y coed presennol. Cadarnhaodd y swyddog y byddai'r coed yn cael eu cadw fel y maen nhw.

Gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb terfynodd y Cadeirydd yr archwiliad safle.

